www.Dewis.Cymru
Cael dewis a chymryd rheolaeth

www.Dewis.Wales
Have choice and take control

LANSIO CYFEIRIADUR LLESIANT NEWYDD YN TORRI TIR NEWYDD YNG

Cymrwch reolaeth o'ch llesiant eich hun!

Yn Sioe Frenhinol Cymru eleni, lansiwyd gwefan Dewis Cymru, gwefan a all eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wella'ch lles eich hun a chael mynediad i wasanaethau lleol yng Nghymru

Wrth sôn am eich llesiant, nid eich iechyd chi yn unig sydd dan sylw. Rydym yn golygu pethau fel ble rydych chi'n byw, pa mor ddiogel rydych chi'n teimlo, mynd allan ac o gwmpas y lle, a chadw mewn cysylltiad â'ch teulu a'ch ffrindiau. Gall Dewis Cymru eich helpu chi, neu rywun rydych yn gofalu amdanynt, wrth roi dewis a rheolaeth i chi am y gwasanaethau sydd yn darparu'r gefnogaeth rydych ei angen.

Ar hyn o bryd mae'r wefan yn cynnwys cyfeiriadur o dros 6,000 o grwpiau a gwasanaethau lleol a chenedlaethol gan gynnwys cynghorau lleol, grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a busnesau – i gyd yn barod i'ch helpu chi.

Felly os ydych yn chwilio am ddosbarth ffitrwydd neu gartref gofal, cefnogaeth i aros gartref neu gyfle i fynd allan ac o gwmpas, rhowch gynnig i Dewis Cymru – efallai bydd gennym y wybodaeth sydd angen arnoch.

Os ydych chi'n darparu gwasanaeth lleol pam ddim ychwanegu eich gwybodaeth i'n cyfeiriadur? Mae'n rhad ac am ddim! Ewch i www.dewis.cymru cael ei ddarparu gan y 22 awdurdod lleol ledled Cymru fel rhan o'u gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. ***Cefnogwyd yr hysbyseb hon gan Lywodraeth Cymru.***